

PWYLLGOR CRAFFU PERFFORMIAD AC ADNODDAU CORFFORAETHOL

Hysbysiad Penderfyniad – Cyfarfod o Bell, 16 Mehefin, 2022.

Mae'r Agenda ar [gael yma](#).

Mae recordiad y cyfarfod ar [gael yma](#).

Yn Bresennol: Y Cyngorydd J. Protheroe (Cadeirydd); Cyngorwyr G.D.D. Carroll, P. Drake, C.P. Franks, E. Goodjohn, S.J. Haines, H.C. Hamilton, S.M. Hanks, B. Loveluck-Edwards ac N.J. Wood

Hefyd yn bresennol: Cyngorwyr L. Burnett (Arweinydd Gweithredol ac Aelod Cabinet Perfformiad ac Adnoddau), M.R. Wilson (Aelod Cabinet dros Wasanaethau Cymdogaeth ac Adeiladu) ac I. Buckley.

EITEM AGENDA 1. PENODI IS-GADEIRYDD –

PENDERFYNWYD – Y Cyngorydd E. Goodjohn yn cael ei benodi'n Is-Gadeirydd am y flwyddyn Ddinesig.

EITEM AGENDA 2. YMDDIHEURIAD AM ABSENOLDEB –

Derbyniwyd hwn gan y Cyngorydd Dr. I.J. Johnson

EITEM AGENDA 3. COFNODION –

ARGYMHELLWYD – CYMERADWYO cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 14 Ebrill, 2022 fel cofnod cywir.

EITEM AGENDA 4. DATGANIADAU BUDDIANT –

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau buddiant.

EITEM AGENDA 5. CYFLWYNIAD I'R PWYLLGOR CRAFFU PERFFORMIAD AC ADNODDAU CORFFORAETHOL –

ARGYMHELLWYD – Y dylid nodi'r cyflwyniad ar y Cyflwyniad i'r Pwyllgor Craffu Perfformiad ac Adnoddau Corfforaethol.

Rheswm dros yr argymhelliad

Gan ystyried cynnwys y cyflwyniad a'r trafodaethau yn y cyfarfod.

EITEM AGENDA 6. CH4 ADRODDIAD ABSENOLDEB SALWCH 2021/2022 (CYF) –

ARGYMHELLWYD – BOD barn ac argymhellion y Pwyllgor yn cael eu cyfeirio at y Cabinet i'w hystyried a'u cymeradwyo, sef:

- Bydd adroddiad yn cael ei lunio ar gyfer y Cabinet ac ar gyfer y Pwyllgor ar y dadansoddiad o absenoldeb salwch gan staff sy'n gweithio gartref a'r rhai sy'n gweithio mewn amgylcheddau swyddfa a rheng flaen.
- Llunio adroddiad ar gyfer y Cabinet ac ar gyfer y Pwyllgor ar unrhyw gydbertynas bosibl rhwng y meysydd lle mae gan y Cyngor brinder sgiliau gyda materion recriwtio a chadw staff yn ogystal â lefelau sylweddol o absenoldeb salwch.
- Llunio adroddiad ar gyfer y Cabinet ac ar gyfer y Pwyllgor ar y cysylltiad rhwng absenoldeb salwch a perimenopos a menopos i staff benywaidd, yn ogystal ag edrych ar y modd o alluogi staff i ddyfynnu'r rhain fel rhesymau dros absenoldeb salwch, megis ar ffurflenni dychwelyd i'r gwaith.
- Mae adroddiad yn cael ei lunio ar gyfer y Cabinet ac i'r Pwyllgor edrych yn benodol ar yr achosion tymor hwy o absenoldeb salwch a nifer y bobl yr effeithir arnynt, wedi'u dadansoddi yn ôl sector, rheswm dros absenoldeb, ac ati.

Rheswm dros yr argymhelliad

I'r Cabinet ystyried sylwadau ac argymhellion y Pwyllgor Craffu er mwyn sicrhau ffocws parhaus ar reoli absenoldeb salwch ym mhob un o wasanaethau'r Cyngor a galluogi'r Pwyllgor i wneud argymhellion i'r Cabinet, fel y bo'n briodol.

EITEM AGENDA 7. TRACIO ARGYMHELLION CRAFFU 4YDD CHWARTER 2021/22 AC ATODLEN RHAGLEN GWAITH CYCHWYNNOL FLYNYDDOL ARFAETHEDIG 2022/23 (PW) –

ARGYMHELLWYD –

- (1) CYTUNO ar statws y camau gweithredu a restrir yn Atodiad A yr adroddiad.
- (2) NODI Blaenraglen Waith Flynyddol y Cabinet ar gyfer 2022/23 sydd wedi'i hatodi yn Atodiad B, yng nghyd-destun cynnwys Blaenraglen Waith Flynyddol y Pwyllgor Craffu Perfformiad ac Adnoddau Corfforaethol 2022/23.
- (4) CYMERADWYO Blaenraglen Waith Flynyddol arfaethedig y Pwyllgor ar gyfer 2022/23 sydd ynghlwm yn Atodiad C yr adroddiad a'i lanlwytho i wefan y Cyngor, yn unol â'r newidiadau canlynol:
 - Bod adroddiad Prosiect Sero yn cael ei symud o fis Mehefin i fis Gorffennaf 2022 yn Atodlen y Rhaglen Waith.

Rhesymau dros yr argymhellion

- (1) Parhau i dracio argymhellion y Pwyllgor yn effeithiol.
- (2) Alinio ag adran 7.6 o Brotocol Rolau a Chyfrifoldebau'r Cabinet a Chraffu.
- (3) Er gwybodaeth i'r cyhoedd.